**Teitl: Hawliau Dynol**

| **Teitlau** | **Hawliau Crefyddol v Hawliau Eraill** | **Mudiad 'Open Doors'** | **Hawl neu ddim hawl? Crefydd yn y Gweithle a'r Ysgol** |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Hawliau Dynol fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt | | |

| Teitlau | Hawliau Crefyddol v Hawliau Eraill | Mudiad 'Open Doors' | Hawl neu ddim hawl? Crefydd yn y Gweithle a'r Ysgol |
|---|---|---|---|
| | **Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |

| Teitlau | Hawliau Crefyddol v Hawliau Eraill | Mudiad 'Open Doors' | Hawl neu ddim hawl? Crefydd yn y Gweithle a'r Ysgol |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | Esgob – arweinydd ardal eang yn ôl trefn eglwysig.<br><br>Hawliau – medru gwneud yr hyn sy'n dderbyniol ac sy'n sicrhau rhyddid.<br><br>Edifarhau – syrthio ar ein bai am wneud yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'anghywir'.<br><br>Uffern – lle mae pobl yn cael eu cosbi yn ôl cred rhai crefyddau.<br><br>Cristion Efengylaidd – dyma derm a ddefnyddir yn aml am Gristnogion sy'n derbyn y Beibl air am air.<br><br>Cenhedloedd Unedig – mudiad rhyngwladol i ddod a gwledydd y byd at ei gilydd er mwyn hyrwyddo heddwch a gwella eu perthynas. | Erledigaeth – cam-drin, carcharu, trin pobl yn greulon (er enghraifft oherwydd eu daliadau crefyddol).<br><br>Rohingya – mae pobl y Rohingya yn byw ym Myanmar ac mae'r mwyafrif yn dilyn crefydd Islam/ Maen nhw wedi'u herlid yn greulon dros y blynyddoedd, ac nid oes ganddyn nhw hawl i ddinasyddiaeth oherwydd Deddf Cenedligrwydd Myanmar 1982. Mae'r Rohingya yn wynebu cyfyngiadau mawr o ran addysg a'r rhyddid i symud o gwmpas y wlad.<br><br>Poenydio – arteithio, poeni, blino, brifo, dioddef. *To torture.*<br><br>Mympwyol - yn cael ei benderfynu gan fympwy (syniad ffansïol byrhoedlog). *Arbitrary, inconstant.*<br><br>Undeb Sofietaidd - gwladwriaeth sofran ffederal yng Ngogledd Eurasia oedd yn bodoli rhwng 1922-1991. Roedd y wladwriaeth yn cael ei rheoli gan y Blaid Gomiwnyddol gyda Moscow yn brifddinas. *Union of Soviet Socialist Republics* (USSR neu CCCP).<br><br>Adfocatiaeth – y weithred o siarad dros berson arall, neu dros achos, mudiad. *Advocacy.*<br><br>Yazidi - pobl sy'n siarad yr iaith Cwrdaidd ac sy'n byw yn bennaf yn Irac, Syria, Armenia a Georgia. Maen nhw'n dilyn crefydd hynafol iawn a monotheistiaid (yn credu mewn un Duw). | Deddf Cydraddoldeb 2010 – Cyfraith sy'n ceisio sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gydradd mewn gwahanol agweddau o fywyd.<br><br>Ysgol Ffydd – ysgol sy'n perthyn i grefydd arbennig.<br><br>Cysegredig – sanctaidd. Rhywbeth sydd â phwysigrwydd dwyfol mewn crefydd – perthyn i Dduw.<br><br>Cyflogwr – rhywun sy'n rhoi gwaith i rywun.<br><br>Gwahaniaethu – trin rhywun yn wahanol mewn ffordd annheg.<br><br>Undebau Llafur – Mudiadau sy'n gwarchod hawliau gweithwyr.<br><br>Mwslimiaid – dilynwyr crefydd Islam.<br><br>Ramadan – mis ympryd yng nghrefydd Islam.<br><br>Llyfrau Sanctaidd – llyfrau pwysicaf unrhyw grefydd sy'n cynnwys eu credoau.<br><br>Kara – un o'r 5k – y freichled ddur.<br><br>Kirpan – un o'r 5k – y cleddyf bychan. |
| **Geiriau** | | | |

| Teitlau | Hawliau Crefyddol v Hawliau Eraill | Mudiad 'Open Doors' | Hawl neu ddim hawl? Crefydd yn y Gweithle a'r Ysgol |
|---|---|---|---|
| **chwilio** | Esgob<br><br>Ficer<br><br>Edifarhau<br><br>Uffern<br><br>Hawliau Dynol<br><br>Hawliau Crefyddol | Erledigaeth<br><br>Cenhedloedd Unedig<br><br>Hawliau Dynol<br><br>Datganiad<br><br>Adfocatiaeth<br><br>Open Doors<br><br>Gobaith i'r Dwyrain Canol<br><br>*Hope for the Middle East*<br><br>Rhyddid<br><br>Smyglo | Deddf Cydraddoldeb<br><br>Gwahaniaethu<br><br>Gwyliau crefyddol<br><br>Ysgol ffydd<br><br>Cyflogwr<br><br>Cig<br><br>Alcohol<br><br>Gweddi<br><br>Iddewiaeth<br><br>Undebau Llafur<br><br>Mwslimaidd<br><br>Llyfrau sanctaidd<br><br>Clwb crefyddol |
| **Tasgau dosbarth** | Tasgau estynedig sy'n gofyn i'r disgyblion i ddefnyddio'r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol.<br>Meddai'r awdur Deborah Orr yn y Guardian, "Er mwyn i hawliau dynol ffynnu mae'n rhaid i hawliau crefyddol ddod yn ail".<br>Beth yw'ch barn chi? Cofiwch gyfeirio at dair erthygl yr e-gylchgrawn a'ch gwybodaeth eich hun . | | |
| **Tasgau ymestynnol** | 1. Bu sawl achos lle bu gwrthdaro'n ymwneud â hawl pobl i wisgo dillad/symbol crefyddol yn gyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf. Chwiliwch am rai o'r digwyddiadau hyn gan ddod i | 1. Dewiswch wlad oddi ar Restr Wylio 'Open Doors 2020' ac ysgrifennwch ddatganiad o gefnogaeth, myfyrdod neu weddi dros y plant a'r ieuenctid sy'n dioddef oherwydd eu ffydd/crefydd yn y wlad. | 1. Ymchwiliwch ymhellach i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>2. Chwaraewch rôl rhywun crefyddol yn ymgeisio am swydd y byddai rhai elfennau ohoni yn groes i'w ddaliadau crefyddol. |

| Teitlau | Hawliau Crefyddol v Hawliau Eraill | Mudiad 'Open Doors' | Hawl neu ddim hawl? Crefydd yn y Gweithle a'r Ysgol |
|---|---|---|---|
| | gasgliadau at y diwedd.<br><br>2. "Rwy'n bwriadu sicrhau bod pob disgybl yn astudio Addysg Grefyddol ac Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn y cwricwlwm newydd, yn yr un modd y byddan nhw'n astudio gwyddoniaeth, mathemateg ac ieithoedd."<br><br>Dyma eiriau Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Cymru wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd.<br><br>Yn y gorffennol roedd hawl gan rieni eithrio eu plant. Beth yn eich barn chi yw'r dadleuon dros ac yn erbyn rhoi'r hawl i ddewis i rieni yn y meysydd a nodir?<br><br>3. Mae'r erthygl yn cyfeirio at ddau fudiad sy'n ymwneud â hawliau sef Liberty a Stonewall.<br><br>Ymchwiliwch i waith y ddau gan restru rhai o'u llwyddiannau.<br><br>4. Ar ba sail mae rhai Cristnogion wedi bod yn negyddol tuag at hawliau pobl hoyw? Beth yw'r sail Feiblaidd dros hyn? Sut mae hyn yn cael effaith ar hawliau pobl mewn gwahanol rannau o'r byd? | 2. Meddai'r awdur Deborah Orr, "For human rights to flourish, religious rights have to come second".<br>Ond meddai Rehman Chishli, swyddog yn llywodraeth Mrs Theresa May<br>"….. where freedom of religion or belief is under attack, other human rights are threatened too. Societies that aim to protect and promote freedom of religion or belief are more stable, are more prosperous and likely to be more resilient against violent extremism."<br>Trafodwch y ddwy farn mewn dadl yn y dosbarth.<br><br>3. Lluniwch boster yn tynnu sylw at dioddefaint Cristnogion a/neu credinwyr eraill yn y byd heddiw.<br><br>4. Allwch chi ddychmygu Cymru fel gwlad lle nad oes hawl i chi ddilyn crefydd benodol. Efallai eich bod wedi dysgu am grwpiau crefyddol yn y gorffennol sydd wedi dioddef erlediaeth yng Nghymru. Ysgrifennwch baragraff neu ddyddiadur yn disgrifio eich profiadau fel Cristion neu berson o ffydd arall yn y wlad.<br><br>5. Gwnewch waith ymchwil ar hanes Asia Bibi | 3. Cynhaliwch drafodaeth ddosbarth ynglŷn â ddylai pobl grefyddol gael hawliau arbennig yn y gweithle.<br><br>4. Ymchwiliwch i achosion diweddar o wahaniaethu crefyddol yn y gweithle neu'r ysgol. |

| Teitlau | Hawliau Crefyddol v Hawliau Eraill | Mudiad 'Open Doors' | Hawl neu ddim hawl? Crefydd yn y Gweithle a'r Ysgol |
|---|---|---|---|
| | 5. Mae'r erthygl yn cyfeirio at y canlynol:<br>Yr Esgob Cherry Vann;<br>Y Parchedig Richard Coles;<br>Yr ohebwraig Deborah Orr;<br>Y chwaraewr rygbi Israel Folau;<br>Y dyfarnwr Nigel Owens.<br>Sut mae'r rhain wedi dylanwadu are eich teimladau am hawliau gwahanol grwpiau o bobl? | ac ysgrifennwch baragraff am yr hyn ddigwyddodd iddi.<br>Dyma un wefan allai eich helpu :<br>https://www.bbc.co.uk/news/resources/idt-sh/Asia_Bibi | |
| **Adnoddau pellach** | | https://www.bbc.co.uk/news/resources/idt-sh/Asia_Bibi<br><br>Erlid Mwslemiaid yn China - https://www.bbc.com/news/world-asia-china-45474279<br><br>Crefydd Mwslemaidd yn Myanmar - https://www.theguardian.com/global-development/2017/sep/06/who-are-the-rohingya-and-what-is-happening-in-myanmar<br><br>https://www.opendoorsuk.org | |